# Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Dyddiad:** 6 Mawrth 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau**

Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad

Pauline Jarman

**Dirprwyadau**

Owen John Thomas yn dirprwyo dros Pauline Jarman

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Keith Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad (Adran Addysg a Hyfforddiant) |
| Catrin Huws | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Cyflwynwyr**

**Yn bresennol:**

***Ar ran ACCAC:***

| | |
|---|---|
| Brian Connolly | Cadeirydd |
| John Valentine Williams | Prif Weithredwr |

***Ar ran NASUWT Cymru:***

| | |
|---|---|
| Geraint Davies | Ysgrifennydd |
| Jean Campion | Cadeirydd, Pwyllgor Addysg NASUWT Cymru |

***Ar ran y Cyngor Cenedlaethol - ELWa:***

| | |
|---|---|
| Enid Rowlands | Cadeirydd |
| Steve Martin | Prif Weithredwr |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Pauline Jarman | Member of Court L Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau newydd. Nid oedd dim.
2. Yr oedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Pauline Jarman a Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad. Ni allai'r Gweinidog fod yn bresennol gan ei bod yn rhoi cyflwyniad ar y Mesur Addysg i D•'r Arglwyddi.
3. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Mesur Addysg wedi mynd drwy'r camau a oedd yn weddill yn Nh•'r Cyffredin ar 6 Chwefror a'i fod bellach wedi symud i D•'r Arglwyddi.
4. Cyfeiriodd y Cadeirydd at amserlen y Pwyllgor ar gyfer tymor yr haf a dywedodd fod tri dyddiad wedi eu nodi fel dewisiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor: 2 Mai, 30 Mai a 4 Gorffennaf. Yr oedd y Cadeirydd wedi trafod hyn gyda'r Clerc yn gynharach ac argymhellai fod y Pwyllgor yn dewis 2 Mai a 4 Gorffennaf. Cytunodd y Pwyllgor.
5. Yr oedd y Cadeirydd wedi cael gwahoddiad gan Brifysgol Abertawe i roi anerchiad mewn cynhadledd i weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â llyfrgelloedd a TG mewn addysg uwch ddydd Mawrth 14 Mai. Ni allai'r Cadeirydd fynd ond yr oedd y gwahoddiad yn agored i unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y mater am ychydig, dywedodd Huw Lewis y byddai e'n awyddus i fynd, ar yr amod bod rheolwr busnes ei blaid yn cymeradwyo hynny.

**Eitem Un: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth lafar**

***Papurau: ELL 05-02(p.1), (p.2), (p.3)***

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y sefydliadau isod:

- ACCAC

- NASUWT Cymru
- Cyngor Cenedlaethol - ELWa

Siaradodd cyflwynwyr o ACCAC a NASUWT i gefnogi eu papurau (ELL 05-02 (p.1) a (p.2)). Siaradodd cyflwynwyr o'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa i gefnogi eu cyflwyniad PowerPoint. Mae copi o'r cyflwyniad hwn i'w weld yn Atodiad 1.

Codwyd y pwyntiau isod yn y drafodaeth:

- **Continwwm rhwng Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith –** Yr oedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y gwahanol ddiffiniadau oedd gan ACCAC a Bwrdd yr Iaith o'r mater hwn. Yr oedd pryder bod y termau iaith gyntaf ac ail iaith yn aneglur a bod angen mwy o gydweithrediad rhwng ACCAC a Bwrdd yr Iaith er mwyn sicrhau cytundeb ynghylch y diffiniad.. Gwnaethant esbonio y bu ymchwil i'r syniad o gael continuum (h.y un Rhaglen Astudio ar gyfer y Gymraeg a Chymraeg Ail Iaith) pan sefydlwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol ac eto yn Adolygiad 1997/2000. Penderfynwyd ar y ddau achlysur nad oedd hi'n bosibl llunio un Rhaglen Astudio ystyrlon ar gyfer holl ddisgyblion Cymru a fyddai'n caniatau digon o wahaniaethu o ran perfformiad. Serch hynny, roedd yna ddilyniant gwell rhwng y ddwy Rhaglen Astudio a gwell perthynas rhwng y ddwy set o Lefelau Cyrhaeddiad o ganlyniad i'r Adolygiad diwethaf. Ychwanegodd NASUWT fod llawer o'r gwaith da yn cael ei wneud mewn gwactod a bod angen partneriaeth gadarnach rhwng cyrff fel ACCAC a Bwrdd yr Iaith.
- **Modelau** – Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n ddymunol sefydlu ysgolion a oedd yn dysgu rhai pynciau yn Gymraeg ac eraill yn Saesneg yn hytrach na'r ysgolion traddodiadol a oedd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Pwysleisiodd NASUWT pa mor bwysig oedd dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd ond nodwyd bod rhai ysgolion oedd â pholisi dwyieithog yn teimlo ei bod yn ddymunol dysgu rhai pynciau di-arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd er enghraifft at bynciau fel Addysg Gorfforol, Celf, Cerddoriaeth a T.G. o bosibl.
- **Ystadegau** – Yr oedd yr Aelodau'n bryderus bod rhai o'r ffigyrau a ddarparwyd yn gwrth-ddweud ei gilydd a thybient a oedd angen corff i fod yn gyfrifol amdanynt. Dywedodd ACCAC eu bod wedi defnyddio ystadegau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad i bwysleisio anghysonderau yn y ffigurau a'r gwendidau yn y dehongliad ohonynt. Gwnaethant ychwanegu bod angen ystadegau dibynadwy a dadansoddiad dibynadwy ohonynt, ac y dylai nifer o gyrff, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, fod yn gyfrifol am eu casglu.
- **Cyllid** – Gofynnwyd i gynrychiolwyr NASUWT nodi pa faes fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol. Dywedodd NASUWT eu bod yn teimlo bod maes y bobl ifanc 15 - 16 oed, Cyfnod Allweddol 4(CA4), yn un allweddol iawn. Dywedasant fod disgyblion o'r oedran hwn wedi penderfynu a oeddent am barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio. Gellid cyfeirio arian a sylw i feysydd eraill wedyn ac yn fwyaf arbennig i'r sector addysg feithrin. Ychwanegasant fod angen cyflwyno plant i'r iaith cyn gynhared ag y gellid a bod plant o'r oedran hwn yn llawer parotach i ddysgu iaith arall. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa a oedd yr hyfedreddau yn seiliedig ar gost a oedd yn cael eu hargymell yn y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn cael eu hystyried. Cyfeiriwyd, yn fwyaf arbennig, at gost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth o £10m ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach Cymru. Dywedasant mewn ymateb i hyn fod yr ymchwil sylfaenol ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi dod o'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach blaenorol a'u bod yn aros am gadarnhad bod y ddarpariaeth hon yn gywir.
- **Cwricwlwm** – Yr oedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod a oedd ACCAC yn credu bod y dulliau dysgu ieithoedd yn llwyddiannus ac yn ddigonol. Dywedodd ACCAC bod Adolygiad 1997/2000 wedi creu perthynas well rhwng Rhaglenni Astudio Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith,

ac y dylai hyn fod yn gymorth i athrawon. Pwysleisiasant fod angen gwneud ieithoedd yn atyniadol i blant, yn enwedig ym mlynyddoedd yr arddegau o safbwynt galwedigaethau.

- **Cyfnod Allweddol 4/ TGAU** – Gofynnodd yr Aelodau a fyddai dechrau dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau meithrin yn sicrhau bod plant yn gyfarwydd â'r iaith erbyn CA4, ac yn lleihau'r nifer sy'n troi cefn ar yr iaith yn ystod y cyfnod hwn. Yr oedd ganddynt ddiddordeb hefyd mewn gwybod faint o ddisgyblion oedd yn dewis peidio ag astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch er eu bod wedi ei astudio ar gyfer TGAU. Yr oedd yr Aelodau'n poeni bod dylanwad pynciau gradd yn ffactor ac yr oeddent am wybod beth y gellid ei wneud er mwyn annog disgyblion i astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Dywedodd NASUWT mewn ymateb i hyn fod dysgu'r iaith mewn dosbarthiadau meithrin wedi bod yn effeithiol mewn rhai ardaloedd a bod enghreifftiau o blant o gefndiroedd di-Gymraeg yn dod yn gwbl rugl yn yr iaith. Cyfeiriodd Jean Campion at ei phrofiad fel athrawes yn dysgu plant meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg a phwysleisiodd gymaint o'r plant y mae hi wedi eu dysgu sydd wedi mwynhau ac sydd wedi ymateb i gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ychwanegasant hefyd y byddai mynd ymlaen i astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch yn ddymunol ond credid mai gwell nod fyddai sicrhau bod y Gymraeg yn rhywbeth naturiol i blant.
- **Recriwtio a chadw athrawon** – Gofynnodd yr Aelodau a allai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa ymhelaethu ar eu strategaeth i leihau'r prinder athrawon ac a allent chwarae rhan yn strategaeth NASUWT yng nghyswllt pobl ifanc 15-16 oed sy'n troi eu cefnau ar yr iaith. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa mewn ymateb i hyn fod prinder athrawon dan hyfforddiant ond bod y gwaith recriwtio'n dod yn ei flaen yn dda.
- **Ymgynghori** – Mynegwyd pryder gan rai Aelodau y gallai strategaeth blynyddoedd cynnar NASUWT gael ei gweld fel ymgais i orfodi model ieithyddol. Yr oedd ganddynt ddiddordeb hefyd mewn gwybod a ddylai NASUWT fod yn rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth feithrin oherwydd y costau cysylltiedig, yn enwedig costau hyfforddi, a chyda faint o'i haelodau yr oedd NASUWT wedi ymgynghori ynghylch y mater hwn. Cadarnhaodd NASUWT y dylid rhoi blaenoriaeth i oedran meithrin CA1 a CA2 a bod y Gymdeithas wedi ymgynghori â llawer iawn o'i haelodau. Dywedasant fod y pwnc wedi ei drafod ym mhwyllgor addysg NASUWT a'i fod wedi mynd ymlaen i'r cyngor gweithredol llawn.
- **Gorfodaeth** – Mynegodd yr Aelodau bryder y gallai bwriad NASUWT i ddileu'r orfodaeth i astudio Cymraeg yn CA4 olygu bod y pwnc yn colli ei statws. Yr oedd pryder hefyd y byddai disgyblion yn CA3 yn colli diddordeb yn y pwnc.
- **Hyfforddi Athrawon** – Yr oedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod a oedd digon o waith yn cael ei wneud i gael athrawon i ddysgu'r iaith. Cyfeiriasant at athrawon yng Ngwlad y Basg a oedd yn cael blwyddyn i ffwrdd i ddysgu'r iaith. Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa weithio gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar y mater hwn.
- **Cydweithredu rhwng AB ac Ysgolion** – Gofynnodd yr Aelodau a oedd angen mwy o gydweithio rhwng Sefydliadau AB ac ysgolion. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa mewn ymateb i hyn fod partneriaethau rhwng y ddwy ochr yn bwysig a bod angen cynnal trafodaethau i edrych ar y dyfodol. Yr oedd penaethiaid wedi bod yn cysylltu â'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa ac yn bwysicach fyth gyda'i gilydd. Dywedodd ACCAC ei bod yn bwysig cofio bod darpariaeth ôl-16 hefyd yn cynnwys darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, y gwasanaeth carchardai a phobl ifanc dan anfantais.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg**

**'Cymru Ddwyieithog' – diffiniad awgrymedig**

***Papur: ELL 05-02(p.4)***

2.1 Yr oedd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Diwylliant wedi cytuno ynghynt y byddai eu Hymgynghorwyr Arbenigol a'u Clercod perthynol yn dod at ei gilydd i ddrafftio diffiniad o'r cysyniad o Gymru ddwyieithog fel sylfaen ar gyfer trafodaeth. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Diwylliant wedi ystyried y diffiniad hwn ac wedi cytuno y byddai'r pwyllgor yn cyflwyno unrhyw welliannau a fyddai'n cael eu hawgrymu yn ôl i'r Clerc.

2.2 Codwyd y pwyntiau isod yn ystod y drafodaeth:

- Teimlai'r Aelodau y byddai'n dda o beth pe gellid cyfeirio at yr union weithred/proses o greu 'Cymru ddwyieithog'. Nododd y Cadeirydd fod y ddau bwyllgor yn ceisio diffinio nodweddion unigol 'Cymru ddwyieithog', yn hytrach na diffinio'r union broses o'i chreu.
- Teimlai'r Aelodau nad oedd angen y geiriau 'cyfan gwbl' yn y cymal, 'Cymru cyfan gwbl ddwyieithog'.
- Yr oedd rhai Aelodau'n bryderus ynghylch y cyfeiriad at drosglwyddo'r iaith Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth fel y peth arferol i'w wneud. Teimlent y gallai rhai pobl weld awgrym yn hyn bod pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg rywsut neu'i gilydd yn israddol i bobl sydd yn siarad Cymraeg.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r diffiniad gynnwys y gair, 'parch' ac y dylai hyn fod yn berthnasol i'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.
- Yr oedd yr Aelodau'n falch o weld bod y gair 'amlieithrwydd' wedi ei gynnwys.
- Teimlai'r Aelodau y dylid cael cyfeiriad at ddiogelu dyfodol y ddwy iaith. Yr oedd angen hefyd am Gymru ddwyieithog a oedd yn gynaliadwy.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Aelodau gyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r Clerc.

**Tystiolaeth wedi'i chasglu o ymweliadau ag ysgolion yng Ngogledd Cymru – Adroddiad Llafar gan yr Ymgynghorydd Arbenigol**

2.4 Disgrifiodd Catrin Redknap ei hymweliadau â phedair ysgol uwchradd ym Môn a Gwynedd rhwng 20 Chwefror a 22 Chwefror 2002. Y pedair ysgol yr ymwelodd â hwy oedd:

- Ysgol Uwchradd Caergybi, Ynys Môn
- Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn
- Ysgol Uwchradd Friars, Bangor, Gwynedd
- Ysgol Tryfan, Bangor, Gwynedd

2.5 **Pwrpas yr ymweliadau** oedd casglu mwy o dystiolaeth gan ddisgyblion ysgol am eu profiad o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.6 Cafodd y disgyblion eu dewis gan y staff cyn yr ymweliadau. Gwelwyd saith grwp i gyd. Yr oedd y grwpiau'n cynnwys rhwng tri a deg disgybl, yn cynrychioli Blynyddoedd 7 i 11. Ym mhob achos ymatebodd y disgyblion mewn modd cydweithredol ac agored. Yr oedd cyfansoddiad pob grwp, i raddau helaeth, yn pennu union natur y sesiynau, ac yr oedd ffactorau fel oedran a gallu'n dylanwadu ar y graddau yr oedd angen gofyn cwestiynau er mwyn cael sylwadau'r disgyblion. Cynhaliwyd sesiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.7 Yr oedd y disgyblion yn cynrychioli sbectrwm eang o ran eu cysylltiad â'r Gymraeg a'r defnydd a

wnaent ohoni.

2.8 Yr oedd y trafodaethau yn dilyn y fframwaith isod:

- Eglurhad byr o gefndir yr ysgol (blwyddyn; ysgol gynradd a fynychwyd);
- Cefndir ieithyddol (patrymau ieithoedd a ddefnyddir gartref ac mewn rhwydweithiau cymdeithasol);
- Graddau a natur y cysylltiad â'r Gymraeg yn yr ysgol (Cymraeg fel pwnc – iaith gyntaf ac ail iaith; Cymraeg fel cyfrwng; gweithgareddau allgyrsiol);
- Ymwybyddiaeth/hunan-arfarniad o hyfedredd yn y Gymraeg;
- Agweddau tuag at eu profiad o'r Gymraeg yn yr ysgol;
- Edrych i'r dyfodol: defnyddio'r Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith o ran eu gyrfa a'u bywydau yn y dyfodol

2.9 Arsylwadau Catrin Redknap:

- Yr oedd bron bob un o'r disgyblion, a'r rhai hynaf yn enwedig, yn ymddangos yn ymwybodol iawn o ba mor hyfedr oeddent yn y Gymraeg. Yr oedd yn ymddangos bod cysylltiad agos rhwng yr argraffiadau hyn a oedd gan y disgyblion ohonynt hwy eu hunain a faint o ddefnydd yr oeddent yn ei wneud o'r iaith.
- Yr oedd yn ymddangos bod cysylltiad agos rhwng hunanhyder o ran hyfedredd, ar y naill law, a pha mor gyson y defnyddid yr iaith ar y llaw arall. Nodwyd hefyd, ymhlith y rhai hynny a oedd yn fwyaf ymwybodol o'r hyn na allent ei wneud yn Gymraeg, bod y rhan fwyaf yn nodi y byddent yn hoffi gallu gwella'u sgiliau Cymraeg.

2.10 Dywedodd Catrin Redknap ei bod wedi ysgrifennu papur yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglodd o'i hymweliadau. Byddai'r Aelodau'n cael copi o'r papur hwn, cyn gynted ag y byddai wedi ei gymeradwyo gan y pedwar pennaeth.

2.11 Diolchodd yr Aelodau i Catrin Redknap ac awgrymasant y dylid casglu mwy o dystiolaeth gan ddisgyblion. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried mwy o dystiolaeth gan ddisgyblion yn ei gyfarfod ar 2 Mai. Credai'r Pwyllgor y byddai'n dda o beth i Catrin Redknap ymweld â mwy o ysgolion.

**Eitem Tri: Blaenraglenni Gwaith Strategol Pwyllgorau Pwnc eraill**

***Papurau: ELL 05-02(p.6, 6a, 6b, 6c, 6d, 6e &6f)***

3.1 Gwahoddasid y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar flaenraglenni gwaith strategol drafft pwyllgorau eraill. Codwyd y pynciau isod yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yng nghyswllt ei Adolygiad Polisi o Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig.
- Ychwanegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i gynllun 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

**Eitem Pedwar: Cofnodion y cyfarfod blaenorol, 13 Chwefror 2002**

***Papur: ELL 04-02(mins)***

4.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Sylwadau'r Cadeirydd wrth Gloi**

- Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu cyfarfod anffurfiol i 'daflu syniadau' a thrafod pynciau y gellid eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad polisi nesaf y Pwyllgor: 'Ysgol y Dyfodol'. Byddai'r Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ac yn paratoi rhestr o bynciau posibl ar gyfer trafodaeth.
- Cyfeiriwyd at ELL 05-02(p.7) – rhestr o is-ddeddfwriaethau a fyddai'n cael eu cyflwyno cyn bo hir. Gan nad oedd y Gweinidog yn y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y gellid gofyn cwestiynau am is-ddeddfwriaethau iddi ar ôl iddi gyflwyno'i hadroddiad misol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar 20 Mawrth.

**Papurau i'w Nodi**

**Yr oedd dau bapur i'w nodi:**

**Is-ddeddfwriaeth**

***Papur: ELL 05-02(p.7)***

**Adroddiad ar Hynt Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant sydd ag Anghenion Iechyd Arbennig**

***Papur: ELL 05-02(p.8)***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**

**Atodiad 1**

**Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa**

## Ein Hetifeddiaeth

Cymysgedd o bolisïau a gweithgareddau

**Sefydliadau AB**

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg / ddwyieithog

- 5,483 o gofrestriadau mewn SABau h.y. 1.3% o'r sector (2,288 ym 1994/95)

- Cyfanswm o oddeutu £10m ar gyfer y ddarpariaeth hon yn 2001-02

- Y prosiectau Sgiliaith (£55k) a Dysg (£100k y flwyddyn)

- Cyllid wedi'i bwysoli: 40% yn fwy am bob uned ddysgu nag ar gyfer darpariaeth gyfwerth yn y Saesneg

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg / ddwyieithog

- wedi'i chrynhoi mewn nifer fach o sefydliadau

- ond rydym yn annog darparwyr i gydweithio e.e. mae Coleg Pontypridd a phedair ysgol yn datblygu adnoddau dysgu iechyd a diogelwch

**Ysgolion**

- 37 o chweched dosbarthiadau
- naws Gymraeg

**Darparwyr Hyfforddiant Preifat**

- darparieth anwastad, heb ei chynllunio
    - data annigonol, cymerir bod niferoedd yn isel iawn

**Darpariaeth Cymraeg i Oedolion**

- darpariaeth helaeth, dewis daearyddol eang a chyfleoedd i

symud ymlaen

- 21,011 o gofrestriadau yn 2000/01 (15,984 ym 1994/95)

dyrannwyd £3.1m yn y flwyddyn ariannol hon, gyda

phwysedd cyllido o 1.25

**Camau a gymerwyd ers Ebrill 2001**

- Sefydlwyd dwyieithrwydd fel thema groestoriadol gyffredinol yn y Strategaeth Gorfforaethol
- Ymgynghorwyd yn eang - Grwp Ffocws:

  7-8 Tachwedd

- Adolygwyd ein hetifeddiaeth

Y Cyngor i ystyried argymhellion polisi ar yr 21ain o Fawrth

**Y Dyfodol**

- Polisi cydlynol ar gyfer y sector ôl-16 cyfan, gan adeiladu ar yr etifeddiaeth a chymathu'r chweched dosbarth
- Gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil
- Rhaid codi ymwybyddiaeth o'r thema groestoriadol yn fewnol
- Ni ellir gwneud hyn ar ein pennau ein hunain - rhaid cydweithio'n agos â phobl eraill
- Rhaid rhoi sylw i ddilyniant unigolion
- Rhaid gweithio'n fwy agos â CCAUC

Byddwn yn buddsoddi mwy: cyllid ar gyfer cynlluniau i godi o £255k i £750k